menter iaith abertawe




# Adroddiad Blynyddol 2023-24

menterabertawe.org

# Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Abertawe 2023-24

## Y Pwyllgor Rheoli

Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn: Jaci Gruffudd (Cadeirydd), Saran Thomas (Is-Gadeirydd), Jane Altham Watkins, Heini Gruffudd, Catrin Rowlands, Rhian Jones, Alun Chivers, Hannah Sams, Rhian Williams, Ann Williams, Luke Clement, Lowri Davies, Emma Roberts, Leisa Williams, a Tomos Jones (ysgrifennydd). Mae Alun Rennolf yn aelod o'r pwyllgor sydd ddim yn gyfarwyddwr.

## Staffio

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r staff craidd yn ystod y flwyddyn 2023-24:

- Tomos Jones = Prif Swyddog
- Anys Wood = Uwch Swyddog Datblygu
- Dafydd Mills = Swyddog Datblygu
- Janet Francis-Jones = Swyddog Datblygu

Recriwtiwyd staff rhan amser i gyfrannu at waith ieuenctid, ac mae staff achlysurol wedi parhau i gyfrannu at ddigwyddiadau ac at waith yn Siop Tŷ Tawe. Mae rota o wirfoddolwyr yn parhau i gyfrannu at ddigwyddiadau megis y Caffi Bore Sadwrn.

## Gwaith y Fenter

### 1. Plant a theuluoedd

Cynhaliwyd **104** o weithgareddau i blant oedran cynradd yn ystod y flwyddyn 2023-24, gyda dros **8,900** yn mynychu'r sesiynau yma. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd **48** o weithgareddau torfol i deuluoedd. Mynychodd oddeutu **4300** o blant ac oedolion y ddarpariaeth yma. Roedd y ffigurau yma i gyd yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn. Bwriad y gwaith yma yw cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn ardal Abertawe (thema 2). Heb y gwaith yma, prin iawn bydd y cyfleoedd i deuluoedd fwynhau a defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Mae'r cynllun Clwb Llygod Bach wedi parhau i redeg yn fisol yn ystod 2023-24. Mae'r clwb yma yn brosiect ar y cyd rhwng Menter Iaith Abertawe, Cymraeg i Blant, ac Amgueddfa Cymru, sy'n cynnig cyfleodd i deuluoedd ymweld â'r amgueddfa i fwynhau gweithgareddau gwahanol pob mis yn hollol rad ac am ddim. Mae'r sesiynau yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, ac rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol ar gynnwys ac amrywiaeth y sesiynau o fis i fis.

Sefydlodd y Fenter cylch Ti a Fi newydd trwy'r Mudiad Meithrin yn ystod 2023-24, a chynhaliwyd y sesiynau yma yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol ar safle Tŷ Tawe cyn symud draw at Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar ddechrau 2024-25. Mae'r sesiynau yma, sy'n addas i blant o dan 5 mlwydd oed, yn cynnig cyfleoedd pwysig i blant a'u teuluoedd mwynhau'r Gymraeg gyda'i gilydd trwy ganu, crefftau, a straeon.

Cynhaliwyd digwyddiadau haf a gaeaf PlanTawe yn ystod 2023-24, gyda dros 200 o blant a'u teuluoedd yn mynychu. Mae hyn yn prosiect ar y cyd rhwng Menter Iaith Abertawe, Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot, a'r Mudiad Meithrin/Cymraeg i Blant. Mae'r cydweithio hyn yn parhau i gynnig cyfle rheolaidd i blant a theuluoedd mwynhau a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, gyda'r digwyddiadau yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg teuluoedd. Ehangwyd y digwyddiad haf am y tro cyntaf eleni i gynnwys gig yn y nos a oedd yn agored i bob oedran.

Cydweithiodd y Fenter gyda'r Cyngor Sir ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i drefnu a chydlynu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ar gyfer Diwrnod Chwarae Cenedlaethol eto eleni. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai celf gan Orielodl, cyfleoedd chwarae, a gweithdai theatr rhyngweithiol gan Theatr na nÓg, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Gymraeg i rieni a gwarchodwyr. Roedd dros 2,500 wedi mynychu ar y diwrnod, ac roedd gwaith y Fenter yn trefnu ac yn sicrhau cyllid yn hanfodol i sicrhau profiadau a darpariaeth iaith Gymraeg i bawb a oedd yn mynychu. Yn ogystal, cydlynodd y Fenter elfennau iaith Gymraeg Gŵyl Croeso Abertawe, dathliad Dydd Gŵyl Dewi'r Cyngor Sir, gan gynnwys darparu amrywiaeth o weithgareddau teuluol drwy'r Babell Cwtsh ar benwythnos yr ŵyl.

Roedd ceisiadau llwyddiannus i gronfa COAST Cyngor Sir Abertawe, yn ogystal â nawdd gan Llenyddiaeth Cymru, hefyd wedi ein galluogi i gynnal cyfres o ddigwyddiadau llenyddol ar draws llyfrgelloedd Abertawe gyda'r awdur Carys Glyn. Roedd y sesiynau yma wedi cynnig cyfleoedd ychwanegol i blant a'u teuluoedd fwynhau'r iaith Gymraeg gyda'i gilydd yn ystod y gwyliau haf. Roedd cyllid o'r gronfa yma hefyd wedi ein galluogi i gynnal cyfres o ddigwyddiadau teuluol amrywiol dros hanner tymor mis Chwefror. Roedd y sesiynau yma yn cynnwys gweithdy Bardd Plant Cymru, gweithdai cyfansoddi, gweithdai gyda'r artist Rhys Padarn (Orielodl), a sioeau teuluol gan Siani Sionc. Roeddwn hefyd wedi gallu croesawu sioe deuluol ychwanegol gan Mewn Cymeriad i Dŷ Tawe yn ystod y cyfnod hwn diolch i gais at y gronfa Noson Allan. Rydym hefyd wedi parhau i drefnu, hyrwyddo, a rhedeg Cynlluniau Chwarae iaith Gymraeg yn ystod pob gwyliau ysgol diolch i gyllid gan Gronfa Chwarae Cyngor Sir Abertawe.

Diolch i gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, sefydlwyd sesiwn werin newydd i blant a theuluoedd ar safle Tŷ Tawe yn ystod 2023-24. Mae'r sesiynau misol yma yn digwydd ar ail brynhawn Sul pob mis ac yn addas i blant oedran 16 ac yn iau, yn ogystal â'u teuluoedd. Nod y sesiynau yma yw datblygu sgiliau cerddorol y bobl ifanc sy'n mynychu, yn ogystal â dathlu treftadaeth werin Cymru trwy basio alawon a thraddodiadau gwerinol ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.

Rydym hefyd wedi parhau i gyfrannu at ddigwyddiadau teuluol lleol eraill megis ffeiriau haf Ffrindiau Parc Dyfnant a'r Cylch Meithrin Meini Bach, a ffeiriau Nadolig yr ysgolion lleol. Mae'r gwaith hwn yn cynnig cyfleoedd pellach i deuluoedd fwynhau a defnyddio'r Gymraeg, ond hefyd cyfleoedd pellach i hyrwyddo a marchnata gwaith ehangach y Fenter.

## 2. Plant a phobl ifanc (11-25)

Cynhaliwyd **140** o weithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn 2023-24, gyda dros **5,100** yn mynychu'r sesiynau yma. Roedd y ffigurau yma yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn cynnig cyfleoedd i blant yr ardal gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i fwynhau a defnyddio'r iaith yn gyson tu allan i gyd-destun addysg. Heb y gwaith yma, prin iawn bydd y cyfleoedd i blant a phobl ifanc i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Mae ein cynlluniau i gefnogi rhaglenni pontio'r ysgolion a cholegau wedi parhau i ddatblygu yn ystod 2023-24. Rydym wedi parhau i gynnal sesiynau gemau cymdeithasol i'r disgyblion ar safleoedd y ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg pob hanner tymor, yn ogystal â chynnig sesiynau gwybodaeth i rieni fel rhan o nosweithiau pontio'r ysgolion. Yn ychwanegol i'r sesiynau rheolaidd yma, cyfrannwyd at ddiwrnodau pontio ac ymsefydlu sawl clwstwr gwahanol trwy gynnig sesiynau megis gemau icebreaker a chwisiau. Roeddwn hefyd wedi trefnu gig pontio ar y cyd gyda'r Cyngor Sir ar gyfer clwstwr Ysgol Gyfun Gŵyr yng nghanolfan y Taliesin, gyda 400 o blant blwyddyn 6 a 7 yn dod at ei gilydd i fwynhau perfformiadau gan Mei Gwynedd a'r Band Tŷ Potas yn Theatr y Taliesin. Effaith y gwaith yma yw cyfrannu tuag at gadw disgyblion mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod i'r nesaf. Rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â'r sesiynau.

Rydym hefyd wedi parhau i gynnal amrywiaeth o sesiynau gemau buarth ac ymwybyddiaeth iaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gwaith yma yn bwysig wrth addysgu pobl ifanc yr ardal am hanes yr iaith, hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, a chynnig syniadau o sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod bywyd pob dydd. Mae'r adborth rydym wedi derbyn ar y sesiynau yma yn parhau i fod yn

bositif iawn, gyda mwy o ysgolion newydd yn ein gwahodd ni i gynnal sesiynau yn ystod y cyfnod yma. Rydym hefyd yn parhau i redeg clybiau amser cinio wythnosol i CA3 yn y ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r adborth mae'r Fenter yn casglu ar ddiwedd pob tymor yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn, ac effaith y gwaith yma yw cynnig cyfleoedd i'r disgyblion fwynhau a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a chymdeithasol.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gyda'r bwriad o annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gyfrwng cerddoriaeth eto yn ystod 2023-24. Mae ein clybiau cerddoriaeth wythnosol ar safle Tŷ Tawe, sy'n dysgu sgiliau megis cyfansoddi a recordio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i redeg. O ganlyniad i adborth gan ddefnyddwyr, ac er mwyn cyrraedd mwy o blant a phobl ifanc, sefydlwyd ail gylch o sesiynau yn gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion cerdd Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ar safle'r ysgol. Diolch i gyllid gan gronfa COAST Cyngor Sir Abertawe, roeddwn hefyd wedi gallu cynnig gweithdai cyfansoddi diwrnod cyfan yn ystod y gwyliau haf a hanner tymor Chwefror gyda'r cerddor Delyth McLean, gyda grwpiau o bobl ifanc yn dod at ei gilydd i greu cân wreiddiol iaith Gymraeg newydd sbon.

Trwy Siop Tŷ Tawe, rydym hefyd wedi parhau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau llenyddol ychwanegol i blant megis ffeiriau llyfrau. Effaith y gwaith yma yw annog plant a phobl ifanc i ddarllen a mwynhau'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol tu hwnt i'r ysgol.

## 3. Cymunedol

Cynhaliwyd **210** o weithgareddau cymunedol i oedolion yn ystod y flwyddyn 2023-24, gyda dros **13,600** yn mynychu'r ddarpariaeth yma. Roedd y ffigurau yma yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn wedi cynnig cyfleoedd amrywiol i oedolion o bob lefel ieithyddol i gymdeithasu yn y Gymraeg yn yr ardal. Mae mwy o oedolion yn ymwneud â'r iaith ar lefel cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael, ac felly mae'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu. Marchnatwyd nifer o'r gweithgareddau cymunedol yma at siaradwyr newydd trwy Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, gyda chyfraniadau clir tuag at Thema 1 yn ogystal â Thema 2.

Cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau celfyddydol iaith Gymraeg eto yn ystod 2023-24, gan gynnwys amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cerddorol wedi eu hariannu trwy brosiect Creu Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd yr artistiaid a groesawyd i Abertawe yn ystod y cyfnod yma yn cynnwys Melin Melyn, N'Famady Kouyaté, Gwilym, Cowbois Rhos Botwnnog, Sage Todz, a HMS Morris, a

chydweithiwyd â lleoliadau amrywiol ar draws y ddinas megis y Bunkhouse a'r Elysium yn ogystal â chynnal digwyddiadau rheolaidd yng nghanolfan Tŷ Tawe.

Ehangwyd y digwyddiad Gŵyl Tawe i leoliad newydd ar safle Amgueddfa Genedlaethol y Glannau am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2023, gyda dros 2,600 o bobl yn mynychu'r ŵyl. Cydweithiodd y Fenter gydag Arena Abertawe i gynnal Sesiwn Siop Coffi iaith Gymraeg am y tro cyntaf, gyda pherfformiadau gan y cerddorion Bwca a Melda Lois yn yr arena yn cael eu ffrydio'n fyw i dros 1,400 o wylwyr ar blatfformau'r arena.

Roedd y Fenter hefyd wedi cydweithio gyda'r Swansea Music Hub a'r Cyngor Sir i raglennu'r elfennau iaith Gymraeg ar gyfer Gŵyl Ymylol Abertawe a'r ŵyl Croeso yn ystod 2023-24. Roedd y gwaith yma wedi sicrhau perfformiadau iaith Gymraeg o safon fel rhan o'r rhaglenni, ac wedi galluogi pob aelod o'r cyhoedd oedd wedi mynychu'r ddwy ŵyl i fwynhau'r celfyddydau iaith Gymraeg. Cydweithiodd y Fenter eto gydag Arena Abertawe i gynnal noson lansio ar gyfer y gystadleuaeth Cân i Gymru, gyda pherfformiadau gan Lily Maya, Mali Hâf, a Morgan Elwy yn cael eu ffrydio'n fyw i dros 2,000 o wylwyr ar blatfformau'r arena.

Roedd digwyddiadau celfyddydol amgen yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys ymweliad gan OPRA Cymru, ein sesiwn werin fisol ar safle Tŷ Tawe, yn ogystal â nifer o weithgareddau llenyddol cymdeithasol megis lansiadau llyfrau a chlwb darllen misol trwy Siop Tŷ Tawe. Mae'r gwaith yma yn creu cyfleoedd i bobl mwynhau'r celfyddydau iaith Gymraeg yn yr ardal a fydd fel arall ddim yn digwydd, ac yn marchnata'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd.

Mae'r Caffi Bore Sadwrn, bore coffi wythnosol i siaradwyr o bob lefel, wedi parhau trwy gydol 2023-24. O ganlyniad i boblogrwydd y sesiynau yma ac adborth a dderbyniwyd gan siaradwyr newydd, sefydlwyd ail fore coffi ar safle Tŷ Tawe sydd bellach yn rhedeg pob bore dydd Iau - Coffi a Chlonc. Mae'r sesiynau yma yn parhau i gynnig cyfleoedd pwysig i siaradwyr newydd yn yr ardal a thu hwnt ymarfer eu Cymraeg.

Rydym hefyd wedi parhau i ddangos gemau Cymru'n fyw yn y ganolfan yn ystod 2023-24, a sefydlwyd cyfres newydd o nosweithiau ffilm. Mae'r gwaith amrywiol hyn yn cynnig cyfleoedd pwysig i bobl gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol yn yr ardal.

## 4. Seilwaith

Rydym wedi parhau i gefnogi nifer o sefydliadau a mudiadau eraill i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn ystod 2023-24. Rydym wedi parhau i gefnogi'r Ganolfan Amgylcheddol i gynnal bore coffi misol i'r staff ac eraill, yn ogystal â chefnogi

sefydliadau megis Technocamps a Chymdeithas CPD Abertawe i ehangu eu darpariaeth iaith Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gryfhau'r Gymraeg yn y gymuned, yn adeiladu perthnasoedd gweithio cadarn, ac yn creu llwybrau clir a naturiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Ar y cyd gyda Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot, rydym yn parhau i arwain ar drefniadau'r Fforwm Iaith er mwyn annog cydweithio strategol er budd y Gymraeg. Mae'r Fenter hefyd yn parhau i fod yn aelod o bwyllgor Addysg Gymraeg Abertawe ac yn cyfrannu at weithrediad y CSCA. Mae hyn yn galluogi'r Fenter i gyfrannu'n uniongyrchol tuag at ddatblygiad addysg Gymraeg yn yr ardal ac i gynnig llais cryf, angerddol dros y Gymraeg. Mae'r Fenter hefyd wedi ymuno gyda'r Bartneriaeth Addysg Oedolion ar gyfer yr ardal, gan gynnig mewnbwn at ddarpariaeth y sefydliadau gwahanol, yn ogystal â chynnig safle ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau trwy Dŷ Tawe.

Parha'r Fenter i gefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd cenedlaethol megis Y Cwis Mawr i siaradwyr newydd, y Cwis Dim Clem, a Ras yr Iaith, ble roedd dros 250 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yng nghymal Abertawe yn ystod mis Mehefin. Diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, roedd y Fenter wedi gallu trefnu taith o ysgolion a cholegau Abertawe i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, gyda dros 4,000 o bobl o gefndiroedd gwahanol yn derbyn y cyfle i fwynhau cerddoriaeth iaith Gymraeg. Mae cydweithio ar lefel cenedlaethol fel hyn yn cynnig cefnogaeth i godi proffil ac effaith prosiect, ac yn cynyddu sgôp prosiectau gan ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl.

Mae'r Fenter wedi parhau i ddatblygu adnoddau digidol iaith Gymraeg yn ystod 2023-24, gan gynnwys datblygiadau pellach i'n sianel AM Cymru a phecynnau adnoddau i ddathlu diwrnodau penodol yn y calendr. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at yr ymgyrch i sicrhau fod y Gymraeg ar gael mewn technolegau a chyfryngau newydd, a chynyddu nifer yr adnoddau digidol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Fenter hefyd yn parhau i gynnig a chydlynu cyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd yn ystod sesiynau hyfforddi pêl-droed, cynlluniau chwarae a gweithgareddau eraill i blant, yn Siop Tŷ Tawe, ac mewn digwyddiadau celfyddydol amrywiol. O ganlyniad i'r gwaith yma, mae pobl yn derbyn cyfleoedd amrywiol i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal ac mae pobl newydd yn cael eu hannog i ymwneud â'r iaith mewn ffordd gweithredol.

## 5. Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Fenter wedi parhau i gydweithio mewn partneriaeth agos â nifer o fudiadau yn ystod 2023-24. Mae'r gwaith yn creu llwybrau clir a naturiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal, ac yn cynyddu capasiti i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau iaith Gymraeg.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein partneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cynnwys y sesiynau Clwb Llygod Bach, yn ogystal â'r sesiynau Dewch i Ganu sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer y Gymraeg trwy ganu. Cynhaliwyd y digwyddiad Gŵyl Tawe ar safle'r amgueddfa am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2023, ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda dros 2,600 yn mynychu ar y diwrnod i fwynhau profiad celfyddydol a chymunedol iaith Gymraeg o'r ansawdd uchaf. Roedd partneriaid eraill ar y digwyddiad yma yn cynnwys Coleg Gŵyr Abertawe, y Swansea Music Hub, DCABA, Cymru Greadigol, a PYST. Mae lleoliad canolog yr amgueddfa, yn ogystal â'r nifer o bobl sy'n gallu mynychu digwyddiad yn y gofod sydd ar gael, wedi ein galluogi ni i gynyddu cyrhaeddiad a sgôp ein gweithgareddau yn sylweddol.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe ar nifer o weithgareddau a phrosiectau. Mae hyn yn cynnwys ymweld â gwersi wyneb yn wyneb ac ar-lein i gynnal gweithgareddau ac i ddarparu gwybodaeth. Rydym hefyd yn parhau i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau sy'n addas i siaradwyr newydd yn uniongyrchol trwy DCABA gan ddefnyddio'r brandio Mwynhau'r Gymraeg, ac mae gan bob myfyriwr DCABA cynnig parhaus am docynnau am ddim i unrhyw weithgaredd fel rhan o brosiect Creu/CCC y Fenter.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda Prifysgol Abertawe yn ehangach, er enghraifft trwy gyfrannu at ddigwyddiadau amrywiol ar y campws. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r Gymdeithas Gymraeg i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd i'r aelodau cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynychodd y Fenter Ffair y Glas i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal, yn ogystal â threfnu gig ar gyfer aelodau'r Gym Gym yn ystod yr wythnos. Cefnogodd y Fenter y Gymdeithas i drefnu'r ddarpariaeth cerddoriaeth fyw fel rhan o'r Eisteddfod Rhyngol trwy gysylltu a chydlynu gyda'r artistiaid, yn ogystal â noddi elfennau llenyddol y digwyddiad drwy Siop Tŷ Tawe. Rydym hefyd wedi dechrau recriwtio myfyrwyr trwy blatfform gwirfoddoli'r brifysgol, Discovery, yn ystod y cyfnod yma.

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio gyda Technocamps yn ystod y cyfnod yma i gynnig gweithdai gwyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg, Menter Iaith Castell-

Nedd Port Talbot a'r Mudiad Meithrin/Cymraeg i Blant ar y digwyddiadau PlanTawe, ac Urdd Gobaith Cymru ar y clybiau cerddoriaeth wythnosol yn ystod 2023-24. Mae ein partneriaethau agos gyda'r ysgolion lleol wedi eu nodi uchod, ac rydym hefyd yn parhau i groesawu Merched y Wawr yn rheolaidd i ganolfan Tŷ Tawe gan gynnig cefnogaeth dechnegol ar gyfer digwyddiadau megis arddangos ffilmiau.

## Crynodeb

Gallwn edrych ymlaen at 2024-25 yn hyderus bydd yn flwyddyn arall o gynnydd yn waith y Fenter. Mae wedi bod yn braf croesawu cyfarwyddwyr newydd i'r pwyllgor, a hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i bob aelod am eu cefnogaeth i fi fel Cadeirydd ac i'r Fenter. Gyda'ch cefnogaeth ac ymrwymiad rydym wedi ehangu gweithgareddau'r Fenter eto eleni a hefyd wedi ymestyn i fwy o feysydd newydd. Wrth gwrs mae'r diolch enfawr i'r Prif Swyddog a'r Swyddogion Datblygu am arwain ar yr holl waith yma.

Mae diolch arbennig hefyd i swyddogion Cymdeithas Tŷ Tawe sy'n parhau i weithio ar newid statws elusennol y ganolfan.

J.GRUFFUDD

**Jaci Gruffudd**

Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli